



# Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

## Y rhaglen 'datblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu'

Mehefin 2011



BUDDSODDWYR  
MEWN POBL | Aur

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ▲ ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALLau);
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ dysgu yn y gwaith;
- ▲ cwmnïau gyrfaoedd; a
- ▲ dysgu troseddwy.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

<b>Crynodeb</b>	<b>1</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	<b>2</b>
<b>Argymhellion</b>	<b>4</b>
<b>Cyd-destun</b>	<b>5</b>
<b>Effaith ar safonau a lles disgyblion</b>	<b>7</b>
Safonau disgyblion	7
Lles	8
<b>Effaith ar arfer ystafell ddosbarth</b>	<b>10</b>
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion</b>	<b>14</b>
<b>Rheolaeth strategol</b>	<b>16</b>
<b>Atodiad</b>	
<b>Geirfa</b>	
<b>Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg</b>	

## Crynodeb

- 1 Cydnabyddir bod y technegau addysgu a dysgu sy'n creu'r rhaglen 'Datblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu' yn arfer dda. Mewn rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, lle mae athrawon yn defnyddio strategaethau'r rhaglen yn gyson, mae ymddygiad ac agwedd y disgyblion yn gwella a daw eu meddwl a'u dysgu yn fwy strwythuredig. Nid yw'r newidiadau hyn mewn addysgu a dysgu o reidrwydd yn arwain at gynnydd cynaliadwy neu gynnydd hawdd ei fesur mewn safonau neu fedrau. Cyfyngedig yw'r dystiolaeth fod y rhaglen wedi gwella safonau mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol neu brofion safonol.
- 2 Mae technegau'r rhaglen yn rhydd o gynnwys i bob pwrpas, sy'n golygu mai athrawon sy'n ymgymryd â'r her o ymgorffori ei hymagweddau yn y cwricwlwm ehangach. Ni chafwyd dealltwriaeth dda ar y cyfan o'r angen i ddefnyddio technegau'r rhaglen mewn cynllun cwricwlwm cyffredinol sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn raddol. O ganlyniad, nid yw wedi cael effaith glir ar addysgu neu ddysgu llythrennedd.
- 3 Mewn llawer o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, mae gwelliannau wedi bod yn ymddygiad ac agwedd y disgyblion at ddysgu. Mae'r rhyngweithio rhwng disgyblion ac oedolion wedi gwella, ac mae disgyblion wedi dod yn fwy parod i wrando ar safbwyntiau pobl eraill. Yn benodol, mae hyder ac ymgysylltiad disgyblion gallu is wedi gwella. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn fwy brwdfrydig ynglŷn â'u gwaith ac mae ganddynt ymdeimlad gwell o falchder ynddo.
- 4 Mae'r rhaglen wedi newid arfer ystafell ddosbarth llawer o'r athrawon sy'n cymryd rhan. Mae'r athrawon hyn wedi dod yn fwy hyderus a chreadigol mewn defnyddio ystod ehangach o arddulliau addysgu. Cyflawnwyd hyn yn fwy cyson yn yr ysgolion cynradd nag yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw.

## Prif ganfyddiadau

- 5 Mae llawer o athrawon yn cydnabod bod y technegau addysgu a dysgu sy'n creu'r rhaglen 'Datblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu' ('y rhaglen') yn arfer dda. Mewn rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, yn yr ysgolion cynradd yn bennaf, mae athrawon yn defnyddio'r strategaethau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn gyson ac mae ymddygiad ac agweddau rhai disgyblion yn gwella a daw eu meddwl a'u dysgu yn fwy strwythuredig. Nid yw'r newidiadau hyn mewn addysgu a dysgu, ar eu pen eu hunain, o reidrwydd yn arwain at gynnydd cynaliadwy neu gynnydd hawdd ei fesur mewn safonau neu fedrau. Prin yw'r dystiolaeth fod y rhaglen wedi gwella safonau mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol neu brofion safonol.
- 6 Mae'r rhaglen yn cynnwys sawl agwedd, ond nid oes cynnwys penodol ynddi i bob pwrpas, sy'n golygu mai athrawon sy'n ymgymryd â'r her o ymgorffori ei hymagweddau yn y cwricwlwm ehangach. Fel rhan o'r rhaglen, mae deunyddiau enghreifftiol yn dangos sut y gellir defnyddio'r technegau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, ni chafwyd dealltwriaeth dda ar y cyfan o'r angen i ddefnyddio technegau'r rhaglen mewn cynllun cwricwlwm cyffredinol sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn raddol. O ganlyniad, nid yw'r rhaglen wedi cael effaith ar wella addysgu neu ddysgu llythrennedd.
- 7 Mewn llawer o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, mae gwelliannau wedi bod yn agweddau'r disgyblion at ddysgu, er mai prin yw'r ysgolion sydd wedi defnyddio offer neu becynnau safonol i fesur ymgysylltiad disgyblion. Mae'r rhyngweithio rhwng disgyblion ac oedolion wedi gwella, ac mae disgyblion wedi dod yn fwy parod i wrando ar safbwyntiau pobl eraill. Yn benodol, mae hyder ac ymgysylltiad disgyblion gallu is wedi gwella. Mae disgyblion yn fwy brwdfrydig ynglŷn â'u gwaith ac mae ganddynt ymdeimlad gwell o falchder ynddo.
- 8 Mewn tua hanner yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae ymddygiad y disgyblion wedi gwella, ond nid yw'r rhaglen wedi cael unrhyw effaith ar gyfraddau presenoldeb y disgyblion.
- 9 Mae'r rhaglen wedi newid arfer ystafell ddosbarth llawer o'r athrawon sy'n cymryd rhan. Mae'r athrawon hyn wedi dod yn fwy hyderus mewn defnyddio ystod ehangach o arddulliau addysgu. Mae llawer o'r technegau addysgu yr arbrofwyd â nhw, fel rhoi amser meddwl cynyddol i ddisgyblion, neu roi adborth i ddisgyblion gan ddefnyddio 'dwy seren a dymuniad' (adborth cadarnhaol ac awgrym ynghylch y ffordd ymlaen), yn cael eu defnyddio'n rheolaidd erbyn hyn.
- 10 Mae gwersi'r rhaglen yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau meddwl ac yn eu hannog i ddefnyddio technegau meddwl ar draws y cwricwlwm mewn sefyllfaoedd newydd. Cyflawnwyd hyn yn fwy cyson yn yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, yn rhannol oherwydd bod athro cynradd yn cyflwyno'r rhan fwyaf o bynciau i'w ddosbarth, ond os bydd un athro uwchradd yn cyflwyno'r rhaglen, efallai na fydd athrawon yr un disgyblion yn defnyddio'r un dulliau o angenrheidrwydd.
- 11 Yn y gwersi gorau, mae athrawon sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn hyrwyddo, yn hytrach na chyfeirio'r dysgu. Maent yn siarad llai ac yn caniatáu deialog gynyddol gyda disgyblion mewn sefyllfaoedd grŵp a dosbarth cyfan. Mae mwy o ffocws ar

gwestiynau agored ac ar annog atebion manwl. Mae hyn yn sbarduno syniadau disgyblion, gan ennyn eu diddordeb yn fwy, a gall helpu datblygu'r medrau meddwl lefel uwch sy'n gysylltiedig â meddwl beirniadol, dadansoddi a datrys problemau. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn annog disgyblion i ddod yn fwy annibynnol a chynllunio a myfyrio ar eu gwaith.

- 12 Er gwaethaf pwyslais y rhaglen ar asesu, nid yw ansawdd adborth yr athrawon wrth farcio yn ddigon cyson, yn enwedig yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw. Mewn llawer o'r adrannau ysgolion uwchradd hyn, caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n drylwyr a nodir targedau manwl gywir ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mewn adrannau eraill, nid yw athrawon bob amser yn marcio gwaith yn rheolaidd ac nid ydynt yn rhoi gwybod i ddisgyblion beth maent wedi'i wneud yn dda neu sut gallant wella eu gwaith. Nid oes polisi marcio ysgol gyfan wedi cael ei roi ar waith felly.
- 13 Mae'r rhaglen wedi cael yr effaith fwyaf mewn ysgolion lle mae'r uwch dîm rheoli yn cefnogi ei hegwyddorion allweddol. Mae'r arweinwyr hyn yn hyrwyddo diwylliant o ymchwil yn seiliedig ar ymholi a gweithredu ymhlith athrawon. Mae'r ysgolion sy'n llwyddo orau i gyflwyno'r rhaglen wedi gwneud hynny yng nghyd-destun cymuned ddysgu broffesiynol o gydweithwyr sy'n myfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud, a ffyrdd o'i wella.
- 14 Mae'r athrawon sy'n cymryd rhan yn y rhaglen wedi dod yn fwy myfyriol am eu harfer ystafell ddosbarth. Mae llawer o ysgolion yn rhoi amser i athrawon drafod eu harfer gyda chydweithwyr eraill yn eu hysgol a chlwstwr ehangach o ysgolion. Mae'r ysgolion hyn hefyd wedi rhoi amser i athrawon arsylwi staff eraill.
- 15 Er bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol mewn llawer o'r ysgolion sy'n cymryd rhan, mae gormod o amrywiad o hyd yn ansawdd yr addysgu o fewn, ac ar draws ysgolion. Nid yw pob gwern a arsylwyd yn dangos asesu ar gyfer dysgu na medrau meddwl mewn ffordd ystyrlon. Mae arfer yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn llai datblygedig nag ydyw mewn ysgolion cynradd.
- 16 Mae gan lawer o ysgolion athrawon hyfforddedig nad oeddent yn ymwneud ag egwyddorion y rhaglen i ddechrau. Fodd bynnag, ambell ysgol yn unig sydd wedi hyfforddi cynorthwywyr ystafell ddosbarth yn y rhaglen, ac mewn llawer o achosion, nid oes gan gynorthwywyr ystafell ddosbarth ddealltwriaeth dda o egwyddorion a thechnegau'r rhaglen. Ychydig dros hanner o'r ysgolion yn unig sy'n cymryd rhan sydd wedi gwneud rhieni yn ymwybodol o'r rhaglen neu sut gallent gefnogi eu plant.
- 17 Yn ystod y cyfnod peilot ac ers hynny, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ysgolion unigol ac awdurdodau lleol trwy gynadleddau, ymweliadau ag ysgolion, adnoddau a dogfennau arweiniad. Mae'r arweiniad yn cyd-fynd â ffocws y Cynulliad ar fedrau, ond nid oedd y rhaglen gychwynnol yn cysylltu'n glir â Fframwaith Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- 18 Nid yw ysgolion, awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon i arfarnu effaith y rhaglen ar safonau, lles neu agweddau disgyblion tuag at ddysgu. Mae diffyg disgwyliadau clir yn y rhaglen ynglŷn â'i heffaith arfaethedig ac nid yw'n rhoi digon o arweiniad ar arfarnu.

## Argymhellion

### Dylai ysgolion ac awdurdodau lleol:

- A1 ymgorffori'r rhaglen a mentrau tebyg mewn cynllun cwricwlwm ysgol gyfan ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd;
- A2 gwneud yn siŵr bod pob athro a chynhorthwy-ydd dosbarth wedi cael ei hyfforddi ar gyfer y rhaglen, ac yn mabwysiadu a defnyddio'r rhaglen yn gyson ar draws y cwricwlwm; a
- A3 rhannu'r hyn y mae athrawon sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn ei ddysgu o fewn ac ar draws ysgolion.

### Dylai Llywodraeth Cymru:

- A4 ddarparu arweiniad ar sut gellir cysylltu'r rhaglen â Fframwaith Sgiliau'r Cwricwlwm Cenedlaethol a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen; a
- A5 sefydlu meini prawf llwyddiant clir ar gyfer rhaglenni a mentrau newydd er mwyn gallu arfarnu eu heffaith ar safonau a'u gwerth am arian.

## Cyd-destun

- 19 Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn i ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru i arfarnu effaith ei rhaglen 'Datblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu' ('y rhaglen') ar arfer ystafell ddosbarth ac ar berfformiad ac ymgysylltiad disgyblion.
- 20 Mae'r rhaglen yn nodi'r nodweddion canlynol ar addysgu a dysgu i ysgolion eu mabwysiadu:
- 'canolbwyntio mwy ar sut i ddysgu; hynny yw, y broses ddysgu, yn hytrach nag ar beth i'w ddysgu neu'r wybodaeth bynciol a'r medrau;
  - mae'n ofynnol i ddisgyblion leisio a mynegi eu meddwl/dysgu fel bod y prosesau'n cael eu gwneud yn fwy amlwg a gweladwy yn yr ystafell ddosbarth;
  - mae gan ddisgyblion ac athrawon iaith ddysgu gyffredin;
  - canolbwyntio ar gydweithio a chydweithredu fel grŵp, gydag athrawon yn hyrwyddo'r dysgu;
  - mae disgyblion yn cefnogi ymdrechion ei gilydd i ddysgu a ffurfio eu dysgu ar y cyd;
  - mae disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus;
  - mae disgyblion yn myfyrio, yn monitro ac yn hunanarfarnu eu cynnydd eu hunain;
  - caiff disgyblion eu hannog i drosglwyddo eu dysgu ar draws cyd-destunau a gwneud cysylltiadau;
  - mae'r amgylchedd yn sensitif ac adeiladol fel bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel i wneud camgymeriadau; ac
  - mae'r ystafell ddosbarth yn amgylchedd myfyriol lle gellir sefydlu cymuned ddysgu.'<sup>1</sup>
- 21 Cynhaliwyd adolygiad o'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'i drefniadau asesu cysylltiedig rhwng 2002 a 2004, trwy ymgynghori ag ystod eang o bartneriaid. Y negeseuon allweddol o'r adolygiad oedd y dylai ffocws unrhyw gwricwlwm newydd fod ar ddatblygu medrau, gan gynnwys medrau meddwl, ac y dylai asesu fod yn ffurfiannol trwy gydol pob cyfnod allweddol.
- 22 I gefnogi'r newidiadau hyn, penderfynwyd ariannu rhaglen ddatblygu ar gyfer medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu sy'n cynnwys ymgynghorwyr awdurdodau lleol a'u hysgolion partner. Byddai'r rhaglen yn canolbwyntio ar ddatblygu, gweithredu a lledaenu arfer dda wrth addysgu medrau meddwl a strategaethau asesu ar gyfer dysgu.
- 23 Yn 2005, aeth Llywodraeth Cymru ati i sefydlu ac ariannu rhaglen beilot gychwynnol. Prif nodau'r rhaglen beilot oedd i athrawon:
- wella perfformiad disgyblion (gyda ffocws penodol ar fedrau llythrennedd);

---

<sup>1</sup> Pam datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth? (Llywodraeth Cymru, 2007)

- cynyddu ymgysylltiad disgyblion â'r broses ddysgu;
- gwella arfer ystafell ddosbarth o ran y strategaethau asesu ar gyfer dysgu; a
- chynyddu nifer y gwersi mewn gweithgareddau creadigol.

- 24 Canolbwyntiodd y rhaglen hefyd ar y modd y mae ysgolion yn datblygu, yn gweithredu ac yn rhannu arfer dda. Fe'i cynlluniwyd i annog athrawon i gwestiynu a newid eu harddulliau addysgu eu hunain.
- 25 Rhwng 2005 a 2008, fe wnaeth 30 ysgol gynradd, wyth ysgol uwchradd a phedair ysgol arbennig o naw awdurdod lleol gymryd rhan yn y rhaglen beilot. Roedd y rhaglen yn cynnwys un neu ddau o athrawon ac uwch reolwr o bob ysgol. Gweithiodd Llywodraeth Cymru ag athrawon ac ymgynghorwyr awdurdodau lleol am bum tymor, i nodi strategaethau addas i'w cynnwys yn y rhaglen.
- 26 Yn 2008, comisiynodd Llywodraeth Cymru arfarniad annibynnol gan asiantaeth allanol, BMG Research, a argymhellodd y dylid ymestyn y rhaglen yn genedlaethol. Cyhoeddwyd eu hadroddiad yng Ngorffennaf 2008<sup>2</sup>.
- 27 Yn Ionawr 2009, ymestynnwyd y rhaglen beilot gan Lywodraeth Cymru. Dewisodd bron bob awdurdod lleol gymryd rhan a chawsant gyllid, dros y tair blynedd, i gefnogi'r rhaglen. Enwebodd pob awdurdod lleol 50 athro arweiniol a chytunwyd i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i hyfforddi a mentora'r athrawon hyn yn y flwyddyn gyntaf. Roedd cyfanswm yr ymglymiad yn y rhaglen fel a ganlyn:

Sector	Awdurdodau lleol	Ysgolion	Athrawon
Rhaglen beilot	9	42	110
Blwyddyn 1	19	357	870

- 28 Wrth roi'r rhaglen ar waith, fe wnaeth ysgolion ac awdurdodau lleol gymryd rhan mewn ystod o fentrau a strategaethau eraill hefyd i ddatblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu. Roedd y mentrau hyn yn cynnwys Ysgogi Sgiliau Meddwl Plant, Cyflymiad Gwybyddol trwy Addysg Mathemateg (CAME), Cyflymiad Gwybyddol trwy Addysg Gwyddoniaeth (CASE) (gweler yr eirfa am fanylion) neu weithio gyda sefydliad addysg uwch ar asesu ar gyfer dysgu.

<sup>2</sup> Gwerthusiad o'r Rhaglen Datblygu Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu: BMG research, 2008 (<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090218evaluationreportcy.pdf>)

## Effaith ar safonau a lles disgyblion

### Safonau disgyblion

- 29 Mae llawer o athrawon yn cydnabod bod y technegau addysgu a dysgu sy'n creu'r rhaglen 'Datblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu' yn arfer dda. Mewn rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ysgolion cynradd yn bennaf, mae athrawon yn defnyddio'r strategaethau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen yn gyson ac mae ymddygiad ac agweddau rhai disgyblion yn gwella a daw eu meddwl a'u dysgu yn fwy strwythuredig. Nid yw'r newidiadau hyn mewn addysgu a dysgu, ar eu pen eu hunain, o reidrwydd yn arwain at gynnydd cynaliadwy neu gynnydd hawdd ei fesur mewn safonau neu fedrau. Prin yw'r dystiolaeth fod y rhaglen wedi gwella safonau mewn asesiadau ar ddiwedd cyfnodau allweddol neu brofion safonol.
- 30 Mae lleiafrif o ysgolion yn honni i'r rhaglen gael effaith gadarnhaol ar berfformiad disgyblion. Er enghraifft:
- mewn un ysgol gynradd, mae asesiadau disgyblion ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn dangos bod 43% o ddisgyblion wedi codi mwy na 2 lefel ac mae 16% wedi gwella ar ragfynegiadau profion gallu gwybyddol (PGG) (gweler yr eirfa);
  - mewn ysgol gynradd arall, fe wnaeth nifer y disgyblion sy'n cyflawni'r lefelau disgwylidiedig mewn llefaredd ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 ddyblu ar ôl cael gwersi yn seiliedig ar egwyddorion asesu ar gyfer dysgu;
  - gall un ysgol uwchradd ddangos perfformiad uwchlaw rhagfynegiadau yn seiliedig ar berfformiad blaenorol ac mae data arholiadau 2010 yn dangos gwelliant yng nghanran y disgyblion sy'n cael 5 gradd A\*-C mewn Saesneg a mathemateg;
  - gall ysgol uwchradd arall ddangos effaith benodol yng nghyfnod allweddol 3, canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn yr adrannau a gymerodd ran yn y rhaglen;
  - a
  - gall un ysgol arbennig, sy'n defnyddio INSTEP ar gyfer casglu a dadansoddi data, ddangos bod gwahaniaethau cadarnhaol yn safonau siarad a gwranddo disgyblion ers cyflwyno'r rhaglen.

Fodd bynnag, mae cydfodolaeth mentrau eraill, yn cynnwys y rhai a gynlluniwyd i wella medrau meddwl yn yr ysgolion hyn, yn ei gwneud yn anodd priodoli'r gwelliannau hyn ym mherfformiad disgyblion yn benodol i effaith y rhaglen.

- 31 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r rhaglen wedi cyfrannu at wella medrau datrys problemau ac ymchwilio disgyblion. O ganlyniad, mae ysgolion yn honni y gall disgyblion nodi'r hyn y maent am gael gwybod a thrafod a mynegi barn ar yr hyn y maent wedi'i ddysgu. Cynhaliodd un ysgol drafodaethau gyda disgyblion cyn ac ar ôl mentrau i ddatblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu. Dangosodd y trafodaethau hyn welliant yng ngallu'r disgyblion i drafod eu dysgu a'u meddwl eu hunain a gwneud cysylltiadau ar draws llawer o'u meysydd dysgu.

- 32 Mae disgyblion o bob gallu ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw wedi gweithio ar ddatblygu eu medrau cyfathrebu, gwneud penderfyniadau ac adeiladu tîm. Dyma'r medrau sy'n paratoi disgyblion yn dda ar gyfer y byd gwaith. Dywed disgyblion fod ganddynt allu gwell i weithio'n annibynnol yn yr ysgol a gartref. Gall disgyblion esbonio bod yr hyn y maent yn ei ddysgu trwy weithio fel rhan o dîm yn fedrau y gellir eu trosglwyddo a'u defnyddio mewn sefyllfaoedd eraill.
- 33 Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos effaith arfer dda:

**Astudiaeth achos 1: Arfer dda mewn ysgol uwchradd i ddefnyddio medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu i wella safonau disgyblion**

**Cyd-destun:**

Ysgol gyfun gymysg 11-19 yn Sir y Fflint yw Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn yn esgobaeth Wrecsam, sydd â thua 900 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae'r ysgol wedi cymryd rhan yn y rhaglen fel un o'r ysgolion peilot cynnar er 2005.

**Gweithredu:**

Mae'r uwch dîm rheoli yn mynd ati i gefnogi'r rhaglen ac mae'n flaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r ysgol wedi llunio canllaw cynhwysfawr a hawdd ei ddefnyddio i gefnogi pob un o'r staff i ddatblygu 'Medrau a dysgu ar draws y cwricwlwm'.

Cafwyd system drylwyr i dargedu disgyblion a allai gael llai na phum gradd A\*-C mewn TGAU. Mae'r ffocws ar fedrau meddwl yn ganolog i'r gwaith hwn, a gall yr ysgol ddangos gwelliannau trwy eu harsylwadau gwersi, asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau.

Mae'r uwch dîm rheoli wedi sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd i rannu arfer dda a dysgu oddi wrth eraill. Mae'r ysgol yn cymryd rhan yn weithredol mewn cymuned ddysgu broffesiynol lle mae asesu ar gyfer dysgu yn ffocws allweddol.

**Deilliannau:**

Roedd perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn 4 yn 2010 yn dangos gwelliannau, gan gynnwys rhai mewn Saesneg a mathemateg.

Rhoddir blaenoriaeth i asesu ar gyfer dysgu mewn cynlluniau gwella adrannol. Mae athrawon yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol ac mae hyn wedi gwella medrau meddwl lefel uwch. Mae athrawon yn awr yn mynd ati'n rheolaidd i fyfyrion mwy ar yr arddulliau addysgu y maent yn eu defnyddio.

**Lles**

- 34 Mae'r rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad disgyblion mewn gwersi mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, gyda'r effaith fwyaf mewn ysgolion cynradd. Yn benodol, mae rhyngweithio a chyfathrebu gwell rhwng disgyblion a

rhwng disgyblion â'u hathrawon erbyn hyn. Mae hyn yn llai amlwg yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw. Ychydig iawn o ysgolion sydd wedi defnyddio ffyrdd cydnabyddedig i fesur agweddau disgyblion at ddysgu, fel Agweddau Disgyblion atyn nhw eu Hunain a'r Ysgol (PASS).

- 35 Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd yn gadarnhaol â gweithgareddau yn ystod gwersi ac maent yn dweud bod ganddynt ymdeimlad gwell o falchder yn eu gwaith. Yn y gwersi gorau a arsylwyd, roedd yn amlwg bod disgyblion wedi'u cymell ac yn gweithio'n ddiwyd, gan ddod yn fwy parod i wrando ar safbwyntiau pobl eraill. Mae cynnwys disgyblion mewn cynllunio eu gwaith o'r cychwyn wedi arwain at berchnogaeth, ymgysylltiad, diddordeb a mwynhad gwell i ddisgyblion ac athrawon fel ei gilydd.
- 36 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae hunanhyder a hunan-barch y disgyblion wedi gwella, yn enwedig lle'r oedd hyn yn isel i ddechrau. Mae'r diwylliant o alluogi disgyblion i wneud camgymeriadau a dysgu trwy'r broses hon wedi cyfrannu tuag at y gwelliant hwn. O ganlyniad, mae disgyblion yn fwy parod i fentro wrth ddadansoddi, ymchwilio a thrafod eu gwaith. Mae hyder ac ymgysylltiad mwyafrif y disgyblion gallu is mewn gwersi wedi gwella gan eu bod yn cael mwy o gyfleoedd i ddysgu oddi wrth ei gilydd trwy waith grŵp. Maent yn awr yn gwybod bod disgwyl i bob un ohonynt gymryd rhan yn y wers yn hytrach na gadael i'r un nifer fach o ddisgyblion ateb cwestiynau.
- 37 Mae dealltwriaeth disgyblion o amcanion y wers a'u medrau wrth fyfyrio ar ba mor dda y maent wedi cyflawni'r amcanion hynny yn datblygu'n dda mewn llawer o ysgolion. Mae disgyblion hefyd yn fwy ymwybodol o'r hyn y disgwylir iddynt ei wneud i fodloni'r amcanion dysgu a gwella eu gwaith trwy adeiladu'n bwrpasol ar yr hyn y maent eisoes yn ei wybod. O ganlyniad, maent yn gweithio'n fwy diwyd nag o'r blaen ac yn treulio llai o amser yn darganfod beth i'w wneud.
- 38 Mae tystiolaeth o arolygiadau diweddar o'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn awgrymu bod y rhaglen wedi gwella ymgysylltiad disgyblion mewn gwersi mewn tua hanner o'r ysgolion. Mewn rhai o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, sef ysgolion uwchradd yn bennaf, ychydig iawn o ddylanwad y mae'r rhaglen wedi'i gael ar ganolbwyntio a chymhelliant disgyblion yn ystod gwersi.
- 39 Honnir bod ymddygiad disgyblion wedi gwella mewn tua hanner o ysgolion gan eu bod yn awr yn ymgysylltu mwy mewn gwersi, ond prin yw'r dystiolaeth fod cyfraddau presenoldeb wedi gwella oherwydd y rhaglen.

## Effaith ar arfer ystafell ddosbarth

- 40 Mae'r rhaglen yn cynnwys sawl agwedd, ond nid oes cynnwys penodol ynddi i bob pwrpas, sy'n golygu mai athrawon sy'n ymgymryd â'r her o ymgorffori ei hymagweddau yn y cwricwlwm ehangach. Fel rhan o'r rhaglen, dangosodd deunyddiau enghreifftiol sut y gellid defnyddio'r technegau ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, ni chafwyd dealltwriaeth dda ar y cyfan o'r angen i ddefnyddio technegau'r rhaglen mewn cynllun cwricwlwm cyffredinol sydd wedi'i gynllunio i ddatblygu medrau disgyblion yn raddol. O ganlyniad, nid yw'r rhaglen wedi cael effaith ar addysgu neu ddysgu llythrennedd. Ychwanegwyd llythrennedd yn nod i'r rhaglen yn ddiweddarach, ac nid oedd llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ymwybodol ei fod wedi cael ei gynnwys.
- 41 Mae'r rhaglen 'Datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu' wedi effeithio ar arfer ystafell ddosbarth yr athrawon sy'n cymryd rhan. Mae athrawon yn fwy hyderus yn defnyddio ystod ehangach o arddulliau addysgu. Mae'r rhaglen wedi cael yr effaith fwyaf mewn ysgolion cynradd, er bod enghreifftiau o arfer dda yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw.
- 42 Mae llawer o'r technegau a brofwyd yn cael eu defnyddio bob dydd gan athrawon a dysgwyr erbyn hyn. Mae mapiau meddwl, rhannu meini prawf llwyddo, partneriaid siarad, y sedd boeth a defnyddio 'dwy seren a dymuniad' (adborth cadarnhaol ac awgrym ynghylch ffordd ymlaen) yn rhai o'r strategaethau sy'n cael eu mabwysiadu fwyaf sydd wedi effeithio ar arfer ystafell ddosbarth. Er enghraifft, mae llawer o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw yn defnyddio 'dwy seren a dymuniad' wrth farcio i roi adborth i ddisgyblion ar eu gwaith. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn trafod ac yn olrhain y meysydd i'w gwella gyda disgyblion.
- 43 Yn y gwersi gorau yr ymwelwyd â nhw, mae cynllunio ac addysgu da i ddatblygu medrau meddwl yn annog disgyblion i ddefnyddio technegau meddwl ar draws y cwricwlwm. Cyflawnir hyn yn fwy cyson mewn ysgolion cynradd, oherwydd bod athro cynradd yn cyflwyno'r rhan fwyaf o bynciau i'w ddosbarth, ond os bydd un athro uwchradd yn cyflwyno'r rhaglen, efallai na fydd athrawon yr un dosbarth yn defnyddio'r un dulliau o angenrheidrwydd, oni bai bod polisi ysgol gyfan wedi cael ei roi ar waith.
- 44 Mewn llawer o'r ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw, mae'r athrawon sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn cynllunio ac yn cyflwyno gwersi creadigol a difyr yn amlach. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn hwyluso, yn hytrach na chyfeirio'r dysgu. Maent yn siarad llai ac yn caniatáu deialog gynyddol gyda disgyblion mewn sefyllfaoedd grŵp a dosbarth cyfan. Defnyddir partneriaid siarad mewn llawer o ysgolion i annog disgyblion i siarad mwy a thrafod syniadau. Fodd bynnag, roedd mwyafrif gwersi'r rhaglen yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn cael eu cyfeirio gan yr athro, gydag ychydig o ymgysylltiad gan ddisgyblion, ac ni ddangosodd yr athrawon hyn ddealltwriaeth dda o egwyddorion y rhaglen.
- 45 Yn yr arfer ystafell ddosbarth well, mae athrawon yn canolbwyntio mwy ar amcanion dysgu a meini prawf llwyddo erbyn hyn. Maent yn rhannu'r rhain gyda disgyblion ac yn rhoi amser iddynt adolygu eu cynnydd a thrafod eu syniadau ynglŷn â sut gallent

ddatblygu. O ganlyniad, mae disgyblion yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu ac maent yn gallu meddwl mwy ynglŷn â sut gallent wella. Mae hyn wedi galluogi athrawon i ddarganfod beth mae disgyblion eisoes yn ei wybod ac yn defnyddio hyn i gynllunio gwersi yn y dyfodol.

- 46 Yn yr ysgolion lle mae'r rhaglen wedi cael yr effaith fwyaf, mae'r gwelliannau yn ansawdd cyffredinol yr addysgu yn y blynyddoedd diwethaf yn gysylltiedig â'r brwdfrydedd a ddangosodd pob aelod o staff at y dulliau newydd o addysgu a dysgu. O ganlyniad, mae'r pwyslais ar ddatblygu medrau meddwl beirniadol disgyblion yn dechrau dwyn ffrwyth mewn perthynas ag agweddau disgyblion at ddysgu. Mae athrawon yn holi cwestiynau sy'n heriol ac yn mynnu atebion cywir ac eglur. Maent yn aml yn annog disgyblion i fynegi eu safbwyntiau eu hunain a chwestiynu safbwyntiau disgyblion eraill ar lafar ac yn ysgrifenedig. Trwy hyrwyddo hunanasesu a marcio cyfoedion, mae athrawon wedi gwella dealltwriaeth disgyblion o asesu a'r camau nesaf yn eu dysgu.
- 47 Mae llawer o athrawon sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn defnyddio cwestiynau medrus i ymestyn syniadau disgyblion a'u hannog i ddarganfod eu hatebion eu hunain i broblemau. Maent yn defnyddio mwy o gwestiynau penagored sy'n annog disgyblion i roi atebion manwl. Ar ei orau, mae hyn yn ysgogi meddwl y disgyblion, yn ennyn eu diddordeb yn fwy ac yn gallu helpu datblygu'r medrau meddwl lefel uwch sy'n gysylltiedig â meddwl beirniadol, dadansoddi a datrys problemau. Mae disgyblion yn meddwl mwy am eu hatebion ac maent yn barod i fanylu ar eu hatebion.
- 48 Mewn llawer o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae athrawon sy'n cymryd rhan yn y rhaglen yn annog disgyblion i gynllunio, datblygu a myfyrio ar eu gwaith trwy amrywiaeth o dechnegau a awgrymir gan y rhaglen. Mae'r technegau hyn yn galluogi disgyblion i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol pan fyddant yn cynllunio eu gwaith, yn ymgymryd â thasgau, yn dadansoddi ac yn arfarnu eu canfyddiadau, ac yn myfyrio ar eu dysgu.
- 49 Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos effaith cyflwyno strategaeth ysgol gyfan:

## **Astudiaeth achos 2: Arfer dda mewn ysgol arbennig i addasu technegau'r rhaglen ar gyfer eu disgyblion**

### **Cyd-destun**

Ysgol breswyl ar gyfer plant ag anawsterau dysgu difrifol a disgyblion ag Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yw Ysgol Tŷ Coch. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer plant rhwng tair ac 19 oed. Roedd yr ysgol yn un o'r ysgolion peilot cynnar ac mae wedi cymryd rhan yn y rhaglen er 2005.

### **Gweithredu**

Penderfynodd yr ysgol y byddai cyflwyno asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl yn strategaeth ysgol gyfan. Teimlwyd y byddai cael ymagwedd gyson yn helpu disgyblion. Mae pob un o'r athrawon a'r cynorthwywyr addysgu wedi cael eu hyfforddi yn y dulliau hyn.

Mae'r ysgol wedi addasu'r technegau yn arweiniad Llywodraeth Cymru i weddu i anghenion disgyblion ag anawsterau dysgu a chorfforol difrifol a disgyblion ag awtistiaeth. Mae staff wedi gweithio'n dda gyda'i gilydd i ailysgrifennu cynlluniau gwaith ac adnoddau sy'n bodloni anghenion dysgu amrywiol a heriol y plant orau.

Er enghraifft, mae staff wedi datblygu eu fersiwn eu hunain o system 'goleuadau traffig' i alluogi disgyblion i siarad am eu dysgu yn seiliedig ar ddau liw. Mae pinc (mwynhau = cadarnhaol) yn dangos bod disgyblion wedi deall ac yn cyflawni ac mae gwyrdd (ar gyfer datblygu) yn dangos eu bod yn gwneud cynnydd, ond nad ydynt wedi cyrraedd yno eto. Defnyddir y rhain yn effeithiol i ennyn diddordeb disgyblion mewn dysgu ac mae disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol iawn.

### **Deilliannau**

Ers cyflwyno asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl, mae'r data o INSTEP yn dangos gwahaniaethau cadarnhaol mewn siarad a gwranddo a hyder a hunan-barch cynyddol ymhlith disgyblion. Mae disgyblion yn barod i ymgysylltu ac fe geir lefel uchel o ganolbwyntio mewn gwersi. Maent yn gyfathrebol iawn ac yn uniaethu'n dda â'i gilydd. Mae disgyblion hŷn yn cymryd rhan mewn cynllunio gweithgareddau fel eu prom diwedd blwyddyn.

Mae disgyblion yn cymryd llawer mwy o ran mewn monitro eu cynnydd eu hunain. Er enghraifft, caiff taflenni unigol eu harddangos ar waliau ystafelloedd dosbarth i atgoffa disgyblion ynglŷn â'u targedau bob hanner tymor. Caiff disgyblion eu hannog yn weithredol i drafod eu targedau eu hunain a helpu gosod targedau ar gyfer athrawon. Caiff y taflenni hyn eu harddangos ar y waliau hefyd.

Mae dealltwriaeth ar y cyd ymhlith staff ynglŷn â'r syniadau a'r offer a gyflwynir. Mae gan staff ffocws cryf iawn ar anghenion dysgu disgyblion ac maent yn defnyddio hyn i ddatblygu dealltwriaeth a galluoedd disgyblion.

- 50 Mae tystiolaeth o arolygiadau rhwng 2006 a 2010 o ysgolion a gymerodd ran yn y rhaglen yn awgrymu bod tua hanner ohonynt yn gwneud cynnydd cadarnhaol mewn 'datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu'. Mewn lleiafrif o ysgolion y rhaglen a arolygwyd, ysgolion uwchradd yn bennaf, roedd anghysondebau mewn arfer ystafell ddosbarth ar draws yr ysgol, gan fod rhai gwersi yn rhy athro ganolog ac roedd y cyfleoedd i ddisgyblion feddwl yn feirniadol am destunau yn gyfyngedig.
- 51 Mewn rhai ysgolion, nid oedd y rhaglen wedi cael unrhyw ddylanwad o gwbl bron, neu roedd gormod o anghysondebau mewn arfer ystafell ddosbarth. Pan fydd hyn yn wir, nid yw disgyblion yn dangos digon o ddiddordeb yn y gwersi neu'n arfarnu'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Mewn lleiafrif o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, ysgolion uwchradd yn bennaf, mae athrawon yn llai effeithiol yn defnyddio cwestiynau i chwilio am resymau. Ar yr adegau hyn, mae athrawon yn derbyn atebion byr gan ddisgyblion ac yn colli cyfleoedd i ddatblygu medrau siarad a meddwl disgyblion.
- 52 Er bod y rhaglen yn rhoi pwyslais ar asesu, nid yw ansawdd marcio'r athrawon yn ddigon cyson, yn enwedig yn yr ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan. Mewn llawer o'r adrannau ysgolion uwchradd hyn, caiff gwaith disgyblion ei farcio'n drylwyr a nodir

targedau manwl gywir ar gyfer gwella. Fodd bynnag, mewn adrannau eraill, nid yw athrawon yn marcio gwaith yn rheolaidd ac nid ydynt yn rhoi gwybod i ddisgyblion am yr hyn y maent wedi'i wneud yn dda a sut y gallant wella eu gwaith. Rhoddir adborth annigonol ar gynnydd tuag at dargedau, felly. Mae'r marcio yn fwy cyson yn yr ysgolion cynradd yr ymwelwyd â nhw ond nid oes polisi marcio ysgol gyfan wedi cael ei roi ar waith yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion

- 53 Mae'r rhaglen wedi cael yr effaith fwyaf mewn ysgolion lle mae'r uwch dimau rheoli wedi bod yn gefnogol i egwyddorion allweddol y rhaglen. Mae'r arweinwyr hyn yn aml yn hyrwyddo diwylliant o ymholi ac ymchwil yn seiliedig ar weithredu ymhlith athrawon ac maent yn annog arloesedd. Mae'r ysgolion sy'n llwyddo orau i gyflwyno'r rhaglen wedi gwneud hynny yng nghyd-destun cymuned ddysgu broffesiynol o gydweithwyr sy'n myfyrio ar yr hyn y maent yn ei wneud, a thrafod ffyrdd o'i wella. Mewn rhai ysgolion, nodwyd bod y rhaglen yn cael blaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol ac mae hyn wedi helpu cael mwy o effaith ar arfer ar draws yr ysgol.
- 54 Mae'r athrawon sy'n cymryd rhan yn y rhaglen wedi dod yn fwy myfyriol ynglŷn â'u harfer ystafell ddosbarth. Mae llawer o ysgolion yn rhoi amser i athrawon drafod eu harfer gyda chydweithwyr eraill yn eu hysgol ac ymhlith staff o glwstwr ehangach o ysgolion. Mae'r ysgolion hyn hefyd wedi rhoi amser i athrawon arsylwi staff eraill. Mae'r ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw hefyd wedi bod yn llai llwyddiannus yn ymgysylltu ag adrannau heblaw'r rhai a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen ar y cychwyn. Mae nifer fach iawn o ysgolion yn defnyddio fideo gynadledda i rannu arfer dda. Er bod mwyafrif o ysgolion wedi cael cyfleoedd i rannu arfer yn eu hawdurdod lleol, lleiafrif ohonynt yn unig sydd wedi cael y cyfle i wneud hynny ar draws eu consortia.
- 55 Er bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol mewn llawer o'r ysgolion sy'n cymryd rhan, mae gormod o amrywiad o hyd o ran arfer o fewn, ac ar draws ysgolion. Nid yw pob gwrs a arsylwyd yn dangos asesu ar gyfer dysgu neu fedrau meddwl mewn ffordd ystyrlon ac nid oes gan y rhan fwyaf o gynorthwywyr ystafell ddosbarth ddealltwriaeth dda o'r strategaethau a ddefnyddir. Mae arfer yn yr ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn llai datblygedig na mewn ysgolion cynradd. Ychydig iawn o waith a wnaed i sicrhau parhad mewn datblygu medrau meddwl disgyblion a'u hymgysylltiad â'u dysgu pan fyddant yn symud o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd.
- 56 Mae llawer o ysgolion wedi darparu hyfforddiant ar egwyddorion y rhaglen ar gyfer athrawon nad oeddent yn cymryd rhan yn y rhaglen ar y cychwyn ac ar gyfer athrawon a benodwyd yn ddiweddar. Gwneir hyn trwy gyfarfodydd staff, hyfforddiant mewn swydd, arsylwadau ystafell ddosbarth a thrwy sefydlu cymunedau dysgu proffesiynol. Mae llawer mwy o athrawon yn awr yn defnyddio'r egwyddorion a'r offer wrth addysgu nag a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglenni peilot a'r rhaglenni estynedig i ddechrau. Fodd bynnag, ychydig o ysgolion yn unig sydd wedi hyfforddi cynorthwywyr ac ychydig dros hanner yr ysgolion yn unig sydd wedi gwneud rhieni yn ymwybodol o'r rhaglen a sut y gallent gefnogi eu plentyn. O ganlyniad, mae diffyg cysondeb yn y cymorth a gaiff y disgyblion gan fod y staff hynny nad ydynt yn gyfarwydd â'r strategaethau a'r offer newydd yn parhau i ddefnyddio dulliau eraill i addysgu a chefnogi disgyblion.

- 57 Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn disgrifio'r modd y mae Ysgol Gynradd Sain Tathan wedi cyflwyno'r rhaglen.

**Astudiaeth achos 3: Arfer dda mewn ysgol gynradd i gyflwyno'r rhaglen i bob un o'r staff, gan gynnwys cynorthwywyr addysgu**

**Cyd-destun**

Ysgol gynradd ym Mro Morgannwg sydd â 252 o ddisgyblion ar y gofrestr yw Ysgol Gynradd Sain Tathan. Roedd yr ysgol yn un o ysgolion peilot cynnar y rhaglen yn 2005.

**Gweithredu**

Roedd ffocws cychwynnol yr hyfforddiant ysgol ar athrawon a oedd eisoes yn gyfarwydd ag asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl trwy fentrau Cyflymiad Gwybyddol trwy Fathemateg a Dewch i Feddwl trwy Wyddoniaeth. Cafodd y rhaglen ei chyflwyno'n raddol wedyn ar draws yr ysgol, gan adeiladu ar arfer dda, profiadau a brwdfrydedd yr athrawon hynny.

Mae'r pennaeth dros dro a'r dirprwy bennaeth yn arsylwi gwaith athrawon a chynorthwywyr addysgu yn yr ystafell ddosbarth yn defnyddio'r strategaethau hyn. Mae'r ysgol yn gwneud cyflwyno asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac yn mynd i'r afael â hyn wrth fonitro, addasu'r rhaglen a myfyrio arni.

Mae'r ysgol, ynghyd ag ysgolion eraill, wedi cyfrannu at DVD sy'n dangos y broses o ddefnyddio asesu ar gyfer dysgu a strategaethau medrau meddwl ac mae'n darparu myfyrdod gan athrawon a disgyblion sy'n cymryd rhan.

**Deilliannau**

Mae'r rhaglen wedi cael ei chyflwyno'n llwyddiannus i'r ysgol gyfan, gan gynnwys i gynorthwywyr addysgu. Mae pob dosbarth yn awr yn ymgorffori'r strategaethau addysgu a dysgu hyn yn eu gwaith bob dydd. Mae disgyblion yn ymwybodol iawn o'u dysgu a'u strategaethau a'u harddulliau dysgu. Gallant fynegi syniadau am hyn yn glir a chryno, dangos empathi â disgyblion eraill a rhoi cymorth a sicrwydd i'w cyfoedion.

Mae systemau effeithiol ar waith i rannu arfer dda yn yr ysgol – trwy gyfarfodydd staff, arsylwadau ystafell ddosbarth a thrafodaethau cyffredinol a rhannu deunyddiau. Fel rhan o'r trefniant clwstwr, mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn rhaglen arsylwi ar draws yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys adborth ysgrifenedig a llafar i'r rhai a arsylwyd, er mwyn galluogi athrawon i ddeall technegau ac ethos addysgu cynradd/uwchradd yn well. Mae'r arsylwadau ystafell ddosbarth rheolaidd yn cofnodi cynnydd ac yn llywio datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant ysgol gyfan.

## Rheolaeth strategol

- 58 Cyn cynllunio'r rhaglen, paratodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn drylwyr ac ymchwilio i'r strategaethau sydd wrth wraidd y rhaglen. Fe wnaethant adolygu ymchwil ddiweddar ym meysydd 'datblygu meddwl' ac 'asesu ar gyfer dysgu'. Cawsant drafodaethau gyda llunwyr polisi ac ymchwilwyr o ardaloedd eraill o'r Deyrnas Unedig hefyd am eu cynlluniau yn y dyfodol a chynnydd o ran strategaethau tebyg. Dros y cyfnod cychwynnol o dair blynedd, gweithiodd swyddogion gydag ymgynghorwyr awdurdodau lleol ac athrawon i ddewis strategaethau addas i'w defnyddio mewn ysgolion unigol ac i fonitro ac arfarnu cynnydd. Fe wnaeth ymgynghorwyr awdurdodau lleol hyfforddi a dysgu athrawon i ddatblygu strategaethau a'u rhoi ar waith. Trefnwyd bod cyllid ar gael hefyd i ddod ag arbenigwyr allanol i mewn ar gyfer hyfforddiant yn yr ysgol.
- 59 Yn ystod y cyfnod peilot, cefnogodd swyddogion ysgolion unigol yn dda trwy gynhadledd lansio, ymweliadau ag ysgolion a chyhoeddi dau lyfryn allweddol, sef – 'Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth' a 'Pam datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth?' Mae'r ddau lyfryn yn rhoi cyngor da i ysgolion ar yr egwyddorion sylfaenol ac yn darparu ystod o offer a thechnegau ar gyfer ysgolion.
- 60 Fodd bynnag, roedd diffyg disgwyliadau clir yn y rhaglen ynglŷn â sut i fesur yr effaith ar addysgu a safonau a lles disgyblion. Ni chytunwyd ar unrhyw feini prawf llwyddo ar ddechrau'r cyfnod peilot nac yn ystod y cyfnod estynedig. Ni ddysgwyd gwersi o'r heriau o fesur yr effaith fel y nodwyd yn yr arfarniad o'r rhaglen beilot gan BMG (cwmni ymchwil allanol) yn 2008. Ni roddodd Llywodraeth Cymru arweiniad digon clir ar yr angen i arfarnu effaith y rhaglen ar safonau disgyblion. O ganlyniad, nid oedd llawer o'r awdurdodau lleol ac ychydig dros hanner o'r ysgolion, yn ymwybodol o'r ffaith fod angen mesur yr effaith. O ganlyniad, ni all ysgolion ddangos sut y mae eu strategaethau i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu wedi gwella safonau neu les disgyblion.
- 61 Mae bron pob awdurdod lleol yn monitro datblygiad arfer ystafell ddosbarth yn rheolaidd trwy gymysgedd o arsylwadau ystafell ddosbarth a thrafodaethau gydag uwch dimau rheoli, staff a disgyblion. Fodd bynnag, mae diffyg cysondeb yn y ffordd y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn monitro effaith.
- 62 Mae ysgolion ac awdurdodau lleol hefyd yn cymryd rhan mewn llawer o fentrau eraill a gynlluniwyd i hyrwyddo asesu ar gyfer dysgu a medrau meddwl. Mae felly'n anodd gwahaniaethu rhwng effaith rhaglen Llywodraeth Cymru ar berfformiad, ymgysylltiad disgyblion mewn dysgu ac arfer ystafell ddosbarth, ac effaith mentrau eraill.
- 63 Mae'r ddau awdurdod lleol yr ymwelwyd â nhw wedi trefnu cynadleddau arfer dda ac maent hefyd yn cefnogi ysgolion yn dda gyda gwefannau pwrpasol. Mynychodd nifer dda o bobl y cynadleddau a rhoesant gyfleoedd i ddangos arfer dda i ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ac i ysgolion eraill yn yr ardal nad oeddent yn rhan o'r rhaglen. Fe wnaeth y cynadleddau a'r gwefannau gynyddu nifer yr athrawon sy'n cymryd rhan yn y rhaglen.

Dangosir yr arfer dda hon yn yr astudiaeth achos isod:

#### **Astudiaeth achos 4: Arfer dda mewn awdurdodau lleol i ddarparu hyfforddiant a rhannu arfer dda**

##### **Cyd-destun**

Mae tri awdurdod lleol yng ngogledd orllewin Cymru yn cydweithio i gyflwyno'r rhaglen ar draws nifer o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. Fel rhan o'r garfan gyntaf, hyfforddwyd 150 o athrawon ac mae 150 o athrawon eraill yn awr yn mynd ati i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r egwyddorion a'r offer. Mae cydlynnydd amser llawn yn hwyluso'r hyfforddiant ac yn rhedeg y rhaglen o ddydd i ddydd ar draws yr awdurdodau.

##### **Gweithredu**

Mewn cynhadledd lansio lwyddiannus, cafodd athrawon wybodaeth am gefndir y rhaglen ac fe wnaethant gymryd rhan mewn cyfres o weithdai ar holi, meini prawf llwyddo, meta wybyddiaeth a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mewn datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu. Mae athrawon yn datblygu cynlluniau gweithredu i'w rhoi ar waith yn eu hysgolion. Mae ail set o gyfarfodydd lansio wedi cael ei chynnal erbyn hyn gan ddefnyddio profiadau'r garfan gyntaf o athrawon.

Mae pob ysgol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen wedi cael dau ymweliad ysgol gan swyddog o Lywodraeth Cymru ac o leiaf un ymweliad gan gydlynnydd y rhaglen. Defnyddiwyd yr e-bost yn dda i roi cymorth unigol. Mae gwefan ddwyieithog yn rhoi dolenni i ddogfennaeth berthnasol, deunyddiau hyfforddi, adnoddau defnyddiol a meini prawf y gellir eu defnyddio ar gyfer monitro ac arfarnu'r cynlluniau gweithredu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar waith disgyblion. Mae hyn yn galluogi'r athrawon arweiniol i rannu gwybodaeth a hyfforddi athrawon eraill yn eu hysgolion eu hunain.

Mae athrawon yn ymweld ag ysgolion eraill, yn yr ardal a'r tu allan iddi, i arsylwi a thrafod arfer dda. Mae rhai ohonynt yn mynychu cyrsiau hyfforddi cenedlaethol a gyflwynir gan arbenigwyr ym maes asesu ar gyfer dysgu a datblygu meddwl ac yn rhannu eu dysgu gydag athrawon eraill pan fyddant yn dychwelyd. Mae ymgynghorwyr pwnc ar draws yr awdurdodau lleol yn trafod y rhaglen yn rheolaidd gyda'r cydlynnydd ac maent yn ymgorffori'r egwyddorion a'r offer yn eu cyrsiau hyfforddi eu hunain a chymorth arall ar gyfer ysgolion.

##### **Deilliannau**

Mae athrawon ar draws y tri awdurdod lleol yn deall ac yn gwneud defnydd rheolaidd o'r egwyddorion a'r offer o fewn y rhaglen. Mae athrawon yn cynllunio gwersi mwy creadigol mewn cyd-destunau sy'n apelio at eu disgyblion. Maent yn rhannu arfer yn dda ar draws y tri awdurdod lleol ac mewn nifer sylweddol o ysgolion, mae'r rhaglen wedi cael ei chyflwyno i'r ysgol gyfan. Mae'r ffaith fod deunyddiau dwyieithog ar gael

yn sicrhau bod pob ysgol ar draws y tri awdurdod yn cael yr un cyfle i ddefnyddio dogfennau ac adnoddau a gallant ddefnyddio'r rhain i ddatblygu medrau trawsieithol<sup>3</sup> disgyblion.

Mae disgyblion yn dod yn fwy ymwybodol o'u dysgu. Yn yr enghreifftiau gorau, maent yn helpu cynllunio unedau gwaith ac yn dewis offer i ymgymryd â'r gweithgareddau. Mae mwy o gydweithio ac mae disgyblion yn cyfleu eu syniadau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn ffyrdd mwy amrywiol.

---

<sup>3</sup> Nid medrau cyfieithu yn unig yw medrau trawsieithol, ond maent yn cynnwys cyfryngu rhwng gwahanol gynulleidfaoedd, cymryd deunydd sy'n bodoli mewn un iaith a chyfleu ei gynnwys a'i effaith gyffredinol yn y llall. Gall hyn fod o Gymraeg i Saesneg neu o Saesneg i Gymraeg a gall fod trwy gyfrwng llefaredd neu ysgrifennu.

## Atodiad

### Sail y dystiolaeth

Ar gyfer y cylch gwaith hwn, defnyddiodd AEM y canlynol fel ffynonellau dystiolaeth allweddol:

- ymweliadau â dau awdurdod lleol a sampl o 20 ysgol o ogledd, canolbarth a de Cymru (14 cynradd, pum ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig – roedd wyth o'r rhain yn ysgolion cyfrwng Cymraeg), gan gynnwys arsylwadau o wersi a thrafodaethau gyda disgyblion;
- fideo gynadledda gyda dau ymgynghorydd awdurdod lleol;
- holiadur i sampl o 98 ysgol a phob awdurdod lleol, gan gynnwys:
  - dadansoddiad o 21 holiadur manwl o ddetholiad o ysgolion peilot a Blwyddyn 1 (cyfradd ddychwelyd o 35%);
  - dadansoddiad o 13 holiadur manwl gan awdurdodau lleol (cyfradd ddychwelyd o 59%); a
  - dadansoddiad o 64 holiadur a anfonwyd i bob ysgol nad oeddent wedi'u cynnwys yn yr holiadur manwl (cyfradd ddychwelyd o 19%);
- dadansoddiad o adroddiadau arolygu ar 42 ysgol sy'n cymryd rhan yn y rhaglen a arolygwyd gan Estyn;
- adroddiadau arolygu Estyn ar ysgolion a gymerodd ran yn y cyfnod peilot a'r cyfnod estynedig;
- Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;
- dogfennau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys:
  - Pam datblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth: Llywodraeth Cymru, Mehefin 2010;
  - Sut i ddatblygu meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn yr ystafell ddosbarth: Llywodraeth Cymru, 2010 (<http://www.ngfl-cymru.org.uk/dtaaf/cym/dtaaf.htm>); a
  - Anelu at Ragoriaeth: pecyn hyfforddi ar gyfer Datblygu Meddwl: Llywodraeth Cymru/Estyn/BBC; ac
- Arfarniad o Ddatblygu Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu, Rhaglen Ddatblygu: BMG research 2008. (<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090218evaluationreportcy.pdf>)

## Geirfa

Ymchwil yn seiliedig ar weithredu	Mae hyn yn ymwneud â'r broses lle mae athrawon yn myfyrio'n systematig ar eu gwaith, yn gwneud newidiadau i'w harfer ac yn rhannu eu profiadau gydag eraill er mwyn gwella dysgu'r disgyblion.
Asesu ar gyfer dysgu	Hon yw'r broses o ddarganfod ble mae disgyblion ar gontinwwm dysgu, lle mae angen iddynt fynd a'r ffordd orau o gyrraedd yno. Caiff asesu ar gyfer dysgu ei adnabod hefyd fel asesu ffurfiannol.
Asesu dysgu	Defnyddir asesu dysgu, gyda chofnodi ffurfiol, ar gyfer cynllunio strategol, arweinyddiaeth, ac at ddibenion atebolrwydd yn ogystal ag ar gyfer disgyblion unigol a'u rhieni/gofalwyr. Dylai ddarparu tystiolaeth o berfformiad unigolion, dosbarth cyfan, carfan, ac ysgol. Mae gwybodaeth gryno o'r fath yn cynnwys data i ddangos perfformiad cymharol a newid dros gyfnod. Caiff asesu dysgu hefyd ei adnabod fel asesu cyfansymiol.
CAME	Rhaglen ymyrraeth wedi'i hanelu at ddatblygu medrau meddwl yng nghyd-destun mathemateg yw cyflymiad gwybyddol trwy addysg mathemateg (CAME).
CASE	Rhaglen ymyrraeth wedi'i hanelu at ddatblygu medrau meddwl yng nghyd-destun gwyddoniaeth yw cyflymiad gwybyddol trwy addysg gwyddoniaeth (CASE).
PGG	Profion gallu gwybyddol
Datblygu Meddwl	Mae'r prosesau hyn yn galluogi disgyblion i feddwl yn greadigol ac yn feirniadol i gynllunio eu gwaith, ymgymryd â thasgau, dadansoddi ac arfarnu eu canfyddiadau, a myfyrio ar eu dysgu gan wneud cysylltiadau o fewn yr ysgol a'r tu allan.
Sedd boeth	Mae'r sedd boeth yn golygu bod disgybl yn eistedd mewn cadair yn nhu blaen y dosbarth, gan fabwysiadu cymeriad neu rôl ac ateb cwestiynau gan y disgyblion eraill.
HMS	Hyfforddiant mewn swydd
INSTEP	System asesu sy'n helpu olrhain cynnydd disgyblion sy'n gweithio islaw lefel 1 y Cwricwlwm Cenedlaethol, sydd wedi'i seilio ar raddfeydd P y Cwricwlwm Cenedlaethol. Datblygwyd graddfeydd P i gefnogi gosod targedau trwy ddefnyddio asesu cyfansymiol i'w ddefnyddio ar ddiwedd y cyfnodau allweddol, ac ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gwneud cynnydd cyflymach, unwaith y flwyddyn o bosibl.
Amcanion dysgu	Caiff amcanion dysgu gwerau eu rhannu gyda disgyblion er mwyn sicrhau eu bod yn deall diben y wers. Mae rhannu amcanion dysgu a datblygu meini prawf llwyddo gyda phlant yn arwain at ffocws cryfach ar y dysgu ac yn galluogi plant i ddod yn fwy hunanarfarnol.
Dewch i Feddwl	Rhaglen sydd wedi'i chynllunio i ddatblygu galluoedd meddwl plant pump a chwech oed yw Dewch i Feddwl.

Mapiau meddwl	Gall map meddwl fod yn ddiagram a ddefnyddir i gynrychioli syniadau, geiriau neu feddyliau. Mae'r rhain fel arfer yn gysylltiedig â gair neu syniad allweddol ffocws. Defnyddir mapiau meddwl i ddatblygu medrau meddwl a chynorthwyo disgyblion i lunio barnau a gwneud penderfyniadau.
Moodle	Llwyfan meddalwedd e-ddysgu am ddim a ffynhonnell agored yw'r Amgylchedd Dysgu Dynamig Gwrthrych-Gyfeiriedig Modiwlaid (Moodle) sydd weithiau'n cael ei alw'n System Rheoli Dysgu neu'n Amgylchedd Dysgu Rhithwir.
Addysgeg	Mae addysgeg yn cyfeirio at y berthynas rhwng dysgu ac addysgu. Mae'n ymgorffori'r cysyniad o ymarferwr fel hwylusydd dysgu, sy'n ymateb i anghenion unigolion, yn barod i ddysgu ochr yn ochr â phlant, gan ddefnyddio dulliau priodol i reoli'r broses ddysgu a myfyrio'n barhaus ar arfer, a'i gwella. (Tudalen 42, Addysgeg Dysgu ac Addysgu, LIC 2008)
Cymunedau dysgu proffesiynol (CDPau)	Mae CDPau yn hyrwyddo ac yn cynnal dysgu pob gweithiwr proffesiynol yng nghymuned yr ysgol gyda'r diben cyfunol o wella dysgu'r disgyblion. Gwneir hyn trwy rannu arfer dda yn yr ysgol ac ar y cyd ag ysgolion eraill. Mae gan CDPau y potensial ar gyfer datblygu staff yn bwerus a strategaeth bwerus ar gyfer gwella deilliannau disgyblion trwy arweinyddiaeth ar y cyd neu arweinyddiaeth ddsbarthedig.
Agweddau disgyblion atyn nhw eu hunain ac at yr ysgol (PASS).	Defnyddir PASS i fesur agweddau penodol ar agweddau plant tuag atyn nhw eu hunain fel disgyblion a'u hagweddau tuag at yr ysgol. Mae'n golygu bod modd nodi disgyblion ac ysgolion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd neu danberfformio yn gynnar.
Rhannu meini prawf llwyddo	Mae hyn yn ganolog i asesu ar gyfer dysgu ac yn cyfeirio at yr arfer lle mae athrawon yn rhannu beth yw meini prawf llwyddo tasg benodol gyda'r disgyblion.
Partneriaid siarad	Elfen o fewn asesu ar gyfer dysgu yw hon ac mae'n cyfeirio at yr arfer o baru disgyblion (fel arfer ar hap) am gyfnod penodol. Pan gaiff cwestiynau eu holi gan yr athro, rhoddir amser i'r partneriaid sy'n siarad drafod ac adrodd eu hatebion yn ôl.
Pontio	Mae hyn yn disgrifio disgyblion yn trosglwyddo o un cyfnod dysgu i gyfnod arall, yn enwedig rhwng cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, gan fod hyn hefyd yn cynnwys symud o'r ysgol gynradd i ysgol uwchradd.
Dwy seren a dymuniad	Mae hyn yn disgrifio'r adborth a roddir i ddisgyblion (fel arfer gan yr athro neu weithiau gan ddisgybl arall fel rhan o asesu cyfoedion) sy'n nodi dau gryfder yn eu gwaith ac un maes i'w ddatblygu yn y dyfodol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i adeiladu ar ddysgu blaenorol ac yn rhannu'r broses wella yn gamau llai, a llai bygythiol.

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

Maldwyn Pryse, AEM	Arolygydd Cofnodol
Penny Lewis, AEM	Aelod o'r Tîm
Ray Owen, AEM	Aelod o'r Tîm